| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Ebrill 2013** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen** |
| **Teitl:** | **Y Rhyl yn Symud Ymlaen – Y Newyddion Diweddaraf ar Y Rhyl yn Symud Ymlaen** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r newyddion diweddaraf ar Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth a chael sylwadau'r Aelodau ar y cynnydd o ran gweithredu Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen (RGF).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'r adroddiadau Diweddaraf am y Rhaglen ynghlwm fel Atodiad 1a i 1d sy'n dangos o ran pedair llif gwaith y rhaglen bod gan:

- Ardal Adfywio Gorllewin Y Rhyl statws MELYN ar hyn o bryd (Atodiad 1a)*
- Canol y Dref statws COCH ar hyn o bryd (Atodiad 1b)
- Glan y Môr a Thwristiaeth statws MELYN ar hyn o bryd (Atodiad 1c)
- Byw a Gweithio yn Y Rhyl statws OREN ar hyn o bryd (Atodiad 1d)

* Ar hyn o bryd mae Atodiad 1a wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu i'r cyhoedd yn rhinwedd Paragraffau 13 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

Yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 17 Ionawr 2013, penderfynodd y Pwyllgor argymell gwahodd Alliance Leisure i gyfarfod Briffio'r Cyngor. Deallir bod y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn trefnu hyn ac y dylai ddigwydd ym mis Mehefin 2013.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd gael manylion ffigyrau rhagolygon cynhyrchu incwm y rhaglen. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn yr Adroddiad Newyddion Diweddaraf

RGF nesaf i'r Pwyllgor Archwilio pan fydd gennym fanylion gwariant llawn Blwyddyn Ariannol 2012/13.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd gael manylion ynglŷn ag aelodaeth a chyfansoddiad y Byrddau Rhaglen a Phrosiect. Mae'r Byrddau Prosiect yn dilyn methodoleg Prince 2 sy'n manylu ar rôl y Bwrdd. Mewn perthynas â'r Bwrdd Rhaglen RGF, trafodwyd a chytunwyd ar y telerau ac amodau yn y cyfarfod Rhaglen Bwrdd ar 13 Chwefror 2013. Mae copi o'r Telerau ac Amodau ynghlwm fel Atodiad 2.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

### 5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r economi leol a'n Cymunedau

Prif gymhelliant y Strategaeth Adfywio RGF ydi creu mwy o swyddi a chyfleoedd busnes yn yr ardal, ac felly'n mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon yn uniongyrchol.

### 5.2: Blaenoriaeth 6 – Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael

Yn benodol, bydd Prosiect Gwella Tai Gorllewin Y Rhyl (WRHIP) yn effeithio'n uniongyrchol ar ganlyniad blaenoriaeth "*cynnig ystod o deipiau a mathau o dai...i gwrdd ag anghenion unigolion a theuluoedd*".

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ar y cyfan, nid oes gan y strategaeth adfywio gyllideb benodol. Caiff nawdd ei ddyrannu i brosiectau penodol, yn bennaf trwy ddefnyddio ffynonellau nawdd allanol, a chaiff y nawdd ei fonitro fesul prosiect.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Caiff y rhaglen ei monitro gan y Bwrdd Rhaglen amlasiantaeth sy'n sicrhau bod consensws eang tuag at y dull ar draws asiantaethau allweddol yn Y Rhyl. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar ddatblygu dull marchnata a chyfathrebu cryfach er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth cymunedol ehangach o'r strategaeth. Mae gan brosiectau unigol eu strategaeth ymgynghori eu hunain.

## 8. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Caiff risgiau eu monitro gan y Rhaglen Bwrdd gan ddefnyddio ***Atodiad 3 – Cofrestr Risg Rhaglen.***

## 9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dim angen penderfyniad.

Mae erthygl 6.3.4 Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu'r Pwyllgor Archwilio i adolygu ac archwilio perfformiad y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill wrth ddarparu eu hamcanion a gweithgareddau polisi.

Swyddog Cyswllt**:**

Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen
Ffôn:  01824 706495